# RHEOLAU Gwirion

# Torri'r rheolau ar gyfer gwell gofal

*Gwybodaeth i'r cyhoedd*

Comisiwn Bevan Commission

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Eich gwahoddiad i fod yn rhan o'r ymgyrch rheolau *gwirion* mewn iechyd a gofal.

Helo bawb,

Rydym eisiau rhannu darn o waith cyffrous rydym yn ei wneud gyda'n gilydd yn Llais a'r Comisiwn Bevan. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad Gwella Iechyd (IHI) ar ymgyrch o'r enw "Rheolau Gwirion" ac rydym eisiau clywed gennych chi.

Rydym yn gwrando arnoch chi a'r staff mewn gwasanaethau iechyd a chymdeithasol am y rheolau sy'n rhwystro gwell gofal. Beth yw'r systemau a'r prosesau sy'n ymddangos yn ddiangen ac yn arafu pethau? Pe gallech newid neu dorri unrhyw reol i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i chi neu'r staff, beth fyddai honno?

Byddem wrth ein boddau petaech yn cymryd rhan drwy ateb yr arolwg a'i rannu ag eraill. Gallwch sganio'r cod QR ar y poster sydd ynghlwm neu fynd i'r dudalen we "Rheolau Gwirion" yn Arolwg Rheolau Gwirion - Comisiwn Bevan.

Byddwn yn casglu eich Rheolau Gwirion hyd at ddiwedd y flwyddyn. Byddwn yn adolygu'r canlyniadau ac yn gweithio i wneud newidiadau cadarnhaol i'w rhannu gyda chi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni yn enquiries@llaiscymru.org.

Dymuniadau gorau,

J A Thomas

Alyson Thomas
Prif Weithredwr
Llais

Dr Helen Howson
Cyfarwyddwr
Comisiwn Bevan

# Wedi blino ar reolau *gwirion*?

**Adroddwch reolau an-fuddiol am ofal iechyd a chymdeithasol gwell**

*Creëir rhai rheolau neu ffyrdd o weithio gyda'r bwriadau gorau ond nid ydynt o fudd i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau nac i'r staff. Mae Comisiwn Bevan a Llais yn gweithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad Gwella Iechyd (IHI) ar ymgyrch o'r enw 'Rheolau Gwirion' ac rydym eisiau clywed gennych chi. Beth yw'r systemau a'r prosesau sy'n ymddangos yn ddiangen ac yn arafu pethau? Pe gallech newid neu dorri unrhyw reol i wneud gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well i chi neu'r staff, beth fyddai'r rheol honno?*

SGANIWCH

## Cyfathrebu Cythryblus

Dulliau cyfathrebu rhy gymhleth neu wedi dyddio.

*Ni ellir anfon canlyniadau profion drwy e-bost—maent ar gael drwy'r post yn unig.*



## Caniatâd Cythryblus

Gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer tasgau syml.

*Mae angen aros am atgyfeiriadau gan feddyg teulu i gael mynediad at wasanaethau sylfaenol, gan arwain at oedi mewn triniaeth.*



## Amserlenni Anghyffredin

Amserlenni anodd.

*Rydych yn derbyn llythyrau ar gyfer apwyntiadau yn gynnar yn y bore mewn ysbytai pell o'ch cartref, gan orfodi teithio pellteroedd hir yn ystod oriau brig.*



## Rheolau Rhemp

Rheolau sydd ddim yn gwneud synnwyr.

*Rheolau sy'n gwneud gweld arbenigwr yn anodd, hyd yn oed ar gyfer cyflwr lle byddai mynediad uniongyrchol yn cyflymu gofal.*




## Gwaith Papur Gwastraffus

Ffurflenni diangen sy'n gwastraffu amser.

*Mae'n ofynnol i gleifion lenwi'r un holiadur iechyd bob ymweliad, hyd yn oed pan nad oes manylion wedi newid.*



## Disgwyliadau Dirgel

Rheolau cymdeithasol anesboniedig sy'n achosi pryder i chi.

*Dydych chi ddim eisiau gofyn cwestiynau rhag ofn eich bod yn ymddangos yn anodd.*



## Systemau Sothach

Ffyrdd o weithio sy'n gwneud pethau'n anodd.

*I drefnu sesiwn ffisiotherapi, mae'n rhaid i chi ymweld â'ch meddyg teulu yn gyntaf i gael atgyfeiriad, ac yna ffonio nifer o adrannau gwahanol i ddod o hyd i slotiau sydd ar gael.*



RHEOLAU Gwirion

Comisiwn Bevan Commission

LLAIS Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

RHEOLAU
Gwirion

Comisiwn
Bevan
Commission

Yr Ysgol Reolaeth,
Prifysgol Abertawe, Campws y Bae,
Ffordd Fabian, Abertawe, SA1 8EN

www.bevancommission.org
bevan-commission@swansea.ac.uk
(+44) 01792 604 630

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

3ydd Llawr, 33 - 35 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd, CF11 9HB

www.llaiswales.org
enquiries@llaiscymru.org
(+44) 02920 235 558